


# Y PAPUR GWYRDD

## Y Cylchgrawn Ecolegol Cymraeg ...

# MYNNWN BARCH I'N DAEAR RYFEDDOL

## Y rhybudd i bawb ohonom — Dim mwy o chwarae gyda dyfodol ein plant


**Y PAPUR GWYRDD**

Rhif 2

Hydref / Tachwedd 2007

**PRIS: £1**

ISSN 1755-3504

**Y PAPUR GWYRDD**
Golygydd: Hywel Davies

217 Vicarage Road,
Treforys, Abertawe
SA6 6DX
Ffôn: 01792 798162
Ebost: ypapurgwyrdd1@btinternet.co.uk
Gwefan:
www.ypapurgwyrdd.com



DIOLCH yn fawr i gymaint o bobl am eu croeso i lansiad **Y Papur Gwyrdd** ar Faes yr Eisteddfod Genedlaethol yn yr Wyddgrug ac ers hynny.

Mae'n amlwg bod llawer yn credu bod angen llais Cymraeg i'r ymdrech i geisio gwarchod y Ddaear rhag perygl Newid Hinsawdd ac i greu perthynas gwell rhwng pobl a'n cartref planedol rhyfeddol.

Wrth i gymaint ohonom wneud ein gorau i gynnal ein cyfoeth diwylliannol fel cenedl Gymreig, dyma gyfle bellach i wneud hynny fel rhan o'r ymgyrch mawr i gynnal amrywiaethau ecolegol ledled y byd.

Fel cylchgrawn annibynnol, bydd yn rhan o waith **Y Papur Gwyrdd** i adrodd ar frwydrau cymunedau yn erbyn grymoedd diwydiannol a masnachol sy'n gwenwynno'r Ddaear i bawb ohonom ac yn arbennig i'n plant a'u plant nhw.

Gobeithio y bydd yr iaith Gymraeg, o ganlyniad, yn fwy o gyfrwng i weithgarwch ecolegol nag y bu hyd yn hyn.

Wrth groesawu'r **Papur Gwyrdd**, dywedodd yr amgylcheddwr mawr Satish Kumar, golygydd cylchgrawn **Resurgence**, mai ar lafar yw'r ffordd orau i hybu gwerthiannau.

Felly, da chi, rhowch y gair ar led: mae'r ail rifyn o'r **Papur Gwyrdd** ar gael!

# Yn wên i gyd ar y Maes wrth gyfarch llais Cymraeg ymgyrch y Ddaear



**Yn llon wedi lansiad Y Papur Gwyrdd, aelodau'r panel fu'n trafod yr amgylchedd ym Mhabell y Cymdeithasau, Eisteddfod Genedlaethol Sir y Fflint, dan nawdd Cyfeillion y Ddaear: (chwith i'r dde) Nia Prys-Williams, Fforwm Cynaliadwyedd Cartref Cymru; Dyfrig Davies, cynhyrchydd teledu a chadeirydd y drafodaeth; Jill Evans, Aelod Seneddol Ewropeaidd; John Rowlands, ynghanol ei daith 1000 o filltiroedd ar ran ymgyrch amgylcheddol Cymorth Cristnogol; Hywel Davies, golygydd YPG; a Gordon James, pennaeth Cyfeillion y Ddaear Cymru.**

# CYNNWYS



►**3** John Rowlands — yn cerdded 1,000 milltir er mwyn y Byd



Olwen — yn ddiball wrth helpu eraill ▼**7**



◄**5** Daniel Owen — yn llywyddu dros y dref sy'n arwain Cymru, yn ara' deg



**4**► Glo Cymru — gwell iddo aros dan ddaear?

◄**6** Cofio rhybudd Phil Williams am Dwymo Byd Eang

◄**9** Gordon James — Dim maddeuant gan ein plant am osgoi rhybuddion



& Marian Delyth — lluniau o graith pibellau LPG Cymru



## ENNILL A CHOLLI YM MRWYDR Y DDAEAR

PROTEST wythnos yn erbyn adeiladu glanfa newydd ym Maes Awyr Heathrow yn ennill sylw sylweddol i'r mudiad amgylcheddol. Teithwyr yn cydymdeimlo â'r brotest — ond yn dweud nad ydyn' nhw'n bwriadu hedfan yn llai. Disgwylir teithio awyr i godi 5% y flwyddyn yn y DG.

PLAID Geidwadol gwledydd Prydain yn cyhoeddi cynllun amgylcheddol sy'n cynnwys atal twf pellach i feysydd awyr, trethi uwch ar deithiau awyr byr ac ar geir *gas-guzzlers* — a phosibilrwydd o atal *'standby'* ar offer trydan.

LLAI o obaith am becyn o fesurau ynni cynaliadwy yn yr Unol Daleithiau yn dilyn methiant gweleidyddion i gytuno yn Washington. Dros yr haf, Tŷ'r Cynrychiolwyr a'r Senedd wedi cytuno ar fesurau yn galw am geir mwy tanwydd -effeithiol, ac am wthio diwydiannau o'u dibyniaeth ar danwyddau ffosil. Ond yr Arlywydd Bush yn bygwth gosod *Veto* ar y ddau fesur.

TALEITHIAU America ar y blaen i'r Llywodraeth Ffederal: 20 talaith wedi cytuno ar fesurau ynni adnewyddol i'r gwasanaethau dŵr, trydan ac ati, a 12 talaith i ddechrau cyfyngu ar ollyngiadau fydd yn gorfodi cwmnïau i gynhyrchu ceir tanwydd-effeithiol.

CROESO swyddogol i'r lofa newydd gyntaf ers 30 mlynedd i agor yng Nghymru. Greenpeace yn protestio yn erbyn pwerdy glo yng Nghanada ac allforion glo yn Awstralia.

CANOLFAN Dechnoleg Amgen, Machynlleth, yn cyhoeddi Adroddiad yn galw ar Brydain i dorri gollyngiadau Carbon i sero mewn 20 mlynedd.

PRIDD y Ddaear dan bwysau cynyddol, meddai Cynhadledd Ryngwladol yng Ngwlad yr Iâ. "Diraddiad tir a thŵf anialwch yw argyfwng tawel y byd," medd un o'r trefnwyr, "Sef bygythiad o ddifrif i ddyfodol dynolryw."

**Argreffir Y Papur Gwyrdd yn lleol ar bapur o goedwigoedd cynaliadwy cofrestredig gan Wasg Morgannwg, Uned 27, Parc Busnes Mynachlog Nedd, Castell-nedd, SA10 7DR**

## Y NEGES SY'N MYND O GYMRU I LUNDAIN ...

# "Mae ein byd yn wynebu'r trychineb mwyaf yn ei hanes" - Torrwch y Carbon!

**MAE Cymru'n deffro! Dyna oedd neges rali yng Nghaerdydd i fynnu bod Llywodraeth San Steffan yn dechrau gweithredu o ddifrif i dorri ar y $CO_2$ sy'n gwthio'r Ddaear mor gyflym at ddinistr.**

Clywodd y rali rybudd gan John Rowlands o Gaerdydd — un o dîm y daith gerdded a drefnwyd gan Gymorth Cristnogol i hoelio sylw'r cyhoedd i'r argyfwng amgylcheddol cynyddol ac i fynnu bod Llywodraeth San Steffan yn gweithredu ar frys.



John Rowlands yn annerch ar y daith Newid Hinsawdd

"Mae ein byd yn wynebu'r trychineb mwyaf yn ei hanes," meddai John, "Rhaid inni weithredu gyda'n gilydd yn awr ar draws y gwledydd."

Wrth i gerddwyr y daith 1000-milltir gyrraedd Blackweir ar eu ffordd i Lundain, roedd yr 20 o bobl ryngwladol yn edrych yn griw eiddil a bychan i gario neges mor fawr yn wyneb holl rym y diwydiannau a'r fasnach fyd eang sy'n gwthio Newid Hinsawdd.

Ond gyda channoedd yno i'w croesawu – gan gynnwys tyrfa sylweddol o aelodau Capeli ac Eglwysi Cymraeg y Brifddinas – cawsant wybod eu bod yn cynrychioli barn gynyddol yng Nghymru fod yr angen i ffrwyno Newid Hinsawdd trwy dorri ar ollyngiadau carbon bellach yn dod yn bwnc o bwys yn ein plith.

Wrth gyflwyno anerchiad angerddol i rali ym Maes Cooper, dywedodd John Rowlands mai'r gwledydd cyfoethog sy'n gyfrifol am arllwys $CO_2$ i'r amgylchedd a hynny am dros 200 mlynedd ers y Chwyldro Diwydiannol.

Mae John yn gwybod am effeithiau newid hinsawdd ar y byd gan ei fod yn rheolwr cyfathrebu Asiantaeth Amgylchedd Cymru.

Dywedodd wrth y dorf taw'r nod




Cerddwyr y Daith Torrwch y Carbon yn cyrraedd Caerdydd ar eu ffordd i Lundain

angenrheidiol oedd cyfyngu'r cynnydd yn nhymheredd y byd i $2^oC$ a galwodd ar bawb i bwyso ar eu Haelodau Seneddol, Aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol a chynghorwyr lleol i weithredu dros Dorri'r Carbon.

"Rhaid inni weithredu'n uniongyrchol gan fod hwn yn fater rhy bwysig i'w adael i'r gwleidyddion a gwn y bydd gwleidyddion yn cytuno â mi," meddai.

Dywedodd fod gan Gymru fel gwlad fechan sydd wedi gorfod amddiffyn ei diwylliant a'i threftadaeth yn erbyn grymoedd mwy dros y blynyddoedd, a hefyd fel gwlad a ddioddefodd dan law'r meistri glo a llechi, gyfrifoldeb i fod yn gefn i wledydd eraill sy'n brwydro am hunan barch.

Cyhuddodd un o'r Cerddwyr o Frasil, Cassia Bechara, wledydd cyfoethog y Gorllewin o achosi Newid Hinsawdd ac o achosi dinistr amgylcheddol yn America Ladin yn ogystal.

Roedd hyn yn digwydd wrth i goedwigoedd yr Amazon gael eu llorio ar gyfer soia a thanwydd bio.

Yn aelod o Fudiad y Gweithwyr Heb Dir, dywedodd Cassia fod holl bwysau'r farchnad fyd-eang i ddiwallu galwadau pobl y Gorllewin am nwyddau a

**Parhad ar Dudalen 5.**

## Gwir bris ein nwyddau rhad — lladd ffermwyr yn yr India

GWELWYD gwir gost ein nwyddau rhad yn y Gorllewin yn gynt eleni wrth i 22 o ffermwyr yn yn yr India gael eu lladd gan yr heddlu wrth brotestio yn erbyn datblygiad diwydiannol na fyddai'n caniatau unrhyw reolau ynghylch yr amgylchedd, amodau gwaith, na llywodraeth leol.

Roedd yr ardal ddi-dreth yn Nandigram i fod yn un o 7 neu 8 o Barthau Economaidd Arbennig tebyg oedd i'w sefydlu gan lywodraeth taleithiau Gorllewin Bengal er mwyn bwydo anghenion y farchnad global.

Crëwyd y parthau diwydiannol ym 2005 gan Lywodraeth yr India trwy fesur seneddol oedd yn caniatáu meddiannu tiroedd amaethwyr a'u trosglwyddo i berchnogaeth corfforaethau rhyngwladol.

Mae Nandigram yn brif dref ardal amaethyddol gydag economi leol amrywiol, ffyniannus a democratiaeth naturiol.

Y bwriad oedd y byddai parth economaidd Nandigram yn dod yn safle ar gyfer gwaith cemegol gan Grwp Salim a sefydlwyd gan y gŵr busnes Sudono Salim o Indonesia sydd â chwmnïau bancio, nwdl, blawd, bara, ceir a sment - gyda dros 500 o gwmnïau yn Indonesia yn unig.

Ond gwrthryfelodd pobl Nandigram yn erbyn y bwriad i ddwyn eu tir.

Aethant ati i sefydlu grŵp gweithredu, sef y Mudiad yn Erbyn Dwyn Tir, gan wrthod ildio i'r awdurdodau wrth iddynt geisio dechrau ar y cynllun.

Saethwyd 17 ohonynt yn farw gan yr heddlu yn ystod protest ym Mawrth, gyda phump arall yn marw ym mis Ebrill.

Ond, oherwydd eu haberth, mae cymuned Nandigram wedi llwyddo i atal datblygiad y gwaith cemegol. Mae Llywodraeth Daleithiol Gorllewin Bengal wedi gohirio pob datblygiad yn ymwneud â Pharthau Economaidd Arbennig nes i'r llywodraeth genedlaethol benderfynu sut i symud ymlaen.

Bu'r arweinydd amgylcheddol Vandana Shiva yno yn cefnogi'r pentrefwyr.

"Dyma frwydr rhwng cyfalaf global a gwerinwyr lleol," meddai, "Gadewais Nandigram wedi fy ysbrydoli'n fawr [*gan ymgyrch*] i amddiffyn a gwarchod y gymuned rhag trais a thrachwant globaleiddio corfforaethol."

## YDY — MAE'R DDAEAR YN BWYSIG I NI!

**DYWEDODD Aelod Seneddol yn neddwyrain Cymru wrth gerddwyr Torrwn y Carbon nad oes diddordeb ym mhwnc yr amgylchedd ymhlith y cyhoedd.**

**Mae CC yn galw ar bawb, felly, i ddanfon negeseuon at ASau yn galw am doriad o 80% mewn gollyngiadau carbon erbyn 2050 yng ngwledydd Prydain trwy'r Mesur Hinsawdd.**

CYNEFIN A BYD YNGHYD



Cwmniau glo yn gweld cyfle newydd am elw ...

# Iechyd y Byd! Troi'r cloc nôl i gynnal diwydiant brwnt!

O'I BLENTYNDOD ynghanol ei arddegau nes iddo fod yn ei ugeiniau, bu fy nhad yn gweithio dan ddaear fel glöwr. Ymhell o dan domenydd duon (bryd hynny) Cwm Llynfi, bu'n magu bôn braich ar y ffâs ac yn dysgu crefftau amrywiol mwyngloddio.

Yno hefyd, y llafuriodd tad-cu Llangynwyd - un o hen wehelyth y cwm - a thad-cu Maesteg - ffoadur o Lanelli - ac ambell i hen dad-cu am hynny, gan gynnwys Dafydd Beynon, asiant glowyr yr ardal, a chyfaill i Mabon fel un o gyd-sylfaenwyr y Ffed.

Bu ynof ers yn ifanc, felly, wybodaeth o realiti'r diwydiant glo: cwmnïaeth clos y glowyr, bid siŵr, ond hefyd y creithiau dwfn ddaeth o ddiwydiant mor greulon ei natur.


Flynyddoedd yn ddiweddarach, wedi gorfod ystyried, fe ddes i ddeall, wrth glywed cymaint o gyn-lowyr yn ei ddatgan gydag angerdd, taw un o'r pethau gorau ddigwyddodd oedd cau'r pyllau.

Barnu effaith y slafdod ar y gweithwyr oedden nhw: yn eu plith gwŷr galluog, deallusol, yn athrawon a darlithwyr, mathemategwyr ac athronwyr, beirdd a cherddorion, hufen ein cenedl Gymreig, yn cael eu caethiwo i fywydau o chwys a bryntni a pherygl ac yn cael eu hanafu a'u lladd. A'u gwragedd, hwythau, dan warchae yn eu ceginau yn llafurio gyda'r coginio, y golchi, a'r codi plant. Roedd hynny'n gost enfawr ynddo'i hunan, a diolch am ymdrechion glew yr hen gymdeithasau cyfeillgar, a'r capeli a'r neuaddau gweithwyr am gynnig profiadau ehangach iddynt.

Ond roedd cost arall nad oeddem yn talu sylw iddi. Diflannodd ein caeau breision, ein llwyni, ein perthi, ein coedwigoedd, llethrau hyfryd dyffrynnoedd, dan y tomennydd anferth o sbwriel boerwyd allan o'r glofeydd. Pan geisiodd cyfaill teuluol oedd yn rheolwr pwll glo yng Nghwm Afan ddechrau trefn newydd o lenwi hen dwneli gyda sbwriel glo, cafodd ei atal gan y NCB oherwydd yr hyn y cyfeiriwyd ato fel y gost. Safodd y tipiau ar y llethrau, yn aros eu cyfle.

Gwenwynwyd ein hawyr gyda chymylau mwg y carbon deuocsid o'r glo gan achosi cynnydd yn nhymheredd y Ddaear ac felly magu Newid Hinsawdd. Doedd hynny ddim yn gost ar fantolen y cwmnïau glo. Ond byddai'n gost i bawb arall am genedlaethau.

O dan anferthedd yr ymosodiad ar ein hamgylchedd, a phwysau'r gred fod y cyfan yn golygu cynnydd anorfod, roeddem wedi aros yn syfrdan. Ond dyw systemau naturiol y Ddaear ddim yn aros yn llonydd. Newid Hinsawdd eithafol yw eu hateb.



A bellach, mae Tsieina ac Asia gyfan yn ymroi i wneud heddiw yr hyn wnaethon ni — oherwydd ein galwad ni am nwyddau 'rhad' — ac mae'r canlyniad o ran creulondeb i weithwyr, a llygredd i'r Ddaear, unwaith eto yn enbyd.

Wrth i'r Tsieiniaid alw am fwy o lo, gwelwyd y cyfle yma ym Mhrydain i agor glofeydd newydd ar sail y prisoedd uwch.

Ac wrth i ddiwydiant du ein gorffennol ail godi yma yng Nghymru, gyda glofa wedi agor yng Nghwmgwrach, cawsom fonllefau o gymeradwyaeth gan weinidogion San Steffan a Chynulliad, ac eraill. Adleisio ydynt honiadau ysgubol y diwydiant glo pwerus bod glo bellach yn 'lân', yn danwydd gwyrdd. Gellir claddu'r $CO_2$. *'Clean Coal'* yw'r slogan deniadol, a bu gormod ohonom yn hapus i'w lyncu yn lle wynebu'r bygythiad i'r Ddaear.

Ond y gwir amdani yw nad yw technoleg *'carbon sequestration'* ar gael eto, nac yn debyg i fod ar gael am 15 neu 20 mlynedd. Mae anawsterau mawr ynglŷn â chynlluniau megis gwthio $CO_2$ lawr i haenau gwag yr olew a'r nwy, i greu llynoedd dychrynllyd ohono ar waelod y moroedd, neu ei ddefnyddio i wasgu methan o haenau dwfn glo. Dim syndod bod cwmni Unity Plc wedi galw yn San Steffan am arian cyhoeddus i gynorthwyo'r ymchwil sydd ei angen, er iddynt fynd ati i godi glo ar unwaith.

Gwyddom oll nad lles y Ddaear sy'n gyrru hyn. Elw sy'n gyrru'r cyfan, fel yn y gorffennol. Gwir y rhybuddiodd Dr Keith Allott o'r WWF, "Mae'r economeg fyrdymor sy'n gyrru defnydd glo i gynhyrchu ynni rhad wedi creu 'paradwys ffŵl' fydd a chanlyniadau hirdymor enbyd ... Rhaid [i'r llywodraeth] gynyddu ac amrywio ynni adnewyddol yn ddramatig, leihau'r galw am ynni ac annog, neu ddeddfu, i'r sector pŵer losgi lai o lo."

Felly, gyda phob bonllef drist o gymeradwyaeth wrth i ddynion mynd dan ddaear eto am nad oes swyddi gwell ganddynt, dylem alw am ymroddiad llwyrach at arbed ynni, at ddefnyddio ynni cynaliadwy megis o'r haul, y llanw a'r gwynt - ac ataliad llwyr ar lygredd o bob math gan bob pwll glo wrth gynhyrchu.

Oni allem fod yn siŵr o hynny, dylai glo aros dan ddaear lle cafodd ei greu, gan gadw'r carbon rhag twymo'r Ddaear.

Ar hyn o bryd, dyw Llywodraeth San Steffan ddim yn debyg i gyrraedd targedi Ewrop wrth arbed ynni na chreu'r ynni adnewyddol sy'n hanfodol wrth geisio ffrwyno Newid Hinsawdd. Ac eto maen nhw'n croesawu atgyfodiad glo — y bryntaf o'r cyfan! Rhaid deall nad chwarae plant yw hyn, ond chwarae gyda dyfodol ein plant. Dyna'r gwir gost.

**HYWEL DAVIES**

## Dylai glo aros dan ddaear ...

**MAE Larry Lohmann yn ddadansoddwr awdurdodol ar faterion amgylcheddol. Dyma rai o'i rybuddion am lo:**

Mae'r mwyafrif o lywodraethau, gogledd a de, yn gwybod erbyn hyn bod y byd yn llosgi gwerth 400 mlynedd o ddeunydd biolegol pob blwyddyn trwy olew, glo neu nwy.

Mae'n nhw'n ymwybodol nad yw'r biosffer yn gallu delio gyda'r holl garbon ...

Gan weithio gyda'r asiantaethau rhyngwladol, fe ddylen nhw atal cymorthdaliadau i fentrau sy'n anelu at gloddio tanwyddau ffosil ... *(Foreign Policy in Focus, 2006)*

Mae twymo byd eang yn galw am ateb … radical: dim llai na thrawsnewidiad cymdeithas a thechnoleg fydd yn gadael y rhan fwyaf o danwyddau ffosil yn ddiogel dan ddaear …'
*(New Scientist 2006)*

WEDI HWRLI BWRLI'R 'STEDDFOD — SIESTA I DRE'R LLENOR

# Gan bwyll ... Yr Wyddgrug yn dangos Cymru sut i fyw'n arafach



Daniel Owen — arwr llenyddol Yr Wyddgrug. Byddai wedi cael cwmniaeth ymlaciol pobl Cittaslow Yr Wyddgrug yn llesol. A digon tebyg byddai rhai ohonynt wedi profi'n gymeriadau difyr i'w nofelau.

**PAN groesawyd Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, i fudiad Cittaslow UK y llynedd, hi oedd y dref gyntaf yng Nghymru i'w derbyn yn aelod a dim ond y bedwaredd ym Mhrydain Fawr.**

Mudiad rhyngwladol a sefydlwyd yn 1989 yn yr Eidal i wrthwynebu bwyd a bywyd cyflym yw Cittaslow, a'r holl ganlyniadau negyddol sy'n llifo ohonynt.

Mae Cittaslow yn ffordd o feddwl.

Mae'n ymwneud a gofalu am eich tref a'r bobol sy'n byw a gweithio ynddi ac yn ymweld â hi.

Mae am amddiffyn yr amgylchedd, am hybu nwyddau lleol, ac am osgoi'r unffurfiaeth sy'n amharu ar ormod o



ADRODDIAD ARBENNIG
gan ROBERTA OWEN

Yn byw yn Nhreffynon, Roberta yw Cysylltwraig Cyfeillion y Ddaear Sir y Fflint ers 1989. Mae hi'n gyn athrawes. Dysgodd Gymraeg ar ôl cwrdd â'i gŵr, Glyn, sydd o Fôn, a chael ei hysbrydoli gan bêr-ganeuon Dafydd Iwan.

drefi heddiw.

Wrth ddod yn aelod, cytunodd Yr Wyddgrug i weithio tuag at 60 o amcanion sy'n anelu at wella ansawdd byw. Roedd wedi cyrraedd nifer ohonynt yn barod - sy'n egluro ei llwyddiant.

Gwelodd Cyngor Tref yr Wyddgrug y manteision o ddod yn aelod o Cittaslow yn 2006 am ei fod yn cael unigolion a grwpiau i weithio gyda'i gilydd mewn ffyrdd newydd ac effeithiol.



Marchnad yr Wyddgrug — cyfle i gael awyr iach, i fwynhau sgwrs, a phrynu nwyddau a bwydydd lleol. *LLUNIAU: Cyngor Tre'r Wyddgrug*

Er enghraifft, mae grŵp gydag aelodau o Gyfeillion y Ddaear, y Swyddfa Effeithlonrwydd Ynni ac eraill, newydd ddechrau archwilio ffyrdd o droi'r Wyddgrug yn Dref Carbon Niwtral.

Ar ddechrau'r broses, roedd trafodaethau rhwng Cynnyrch Celyn, Eglwys y Plwyf a Phwyllgor Llywio Tref Fwyd yr Wyddgrug wedi arwain at greu Marchnad Ffermwyr yr Wyddgrug.

Tyfodd Cittaslow allan o'r mudiad *Slow Food* – a dyna ganolbwynt y fenter.

Dydy *Slow Food* ddim yn golygu coginio'n araf! Mae'n golygu cymryd yr amser i nabod a gwybod am y bobol sy'n tyfu a chynhyrchu ein bwyd, a'r sialens maent yn ei wynebu. Mae'n golygu cefnogi ein cynhyrchwyr lleol a siopau bach bob tro y gallwn.

Dros yr hanner canrif ddiwetha' mae gormod o ffermydd wedi dod yn fwy tebyg i ffatrïoedd - yn dibynnu ar gemegau i gynhyrchu cymaint â phosib, mor gyflym â phosib, i lenwi silffoedd ein harchfarchnadoedd - ar draul yr amgylchedd, lles anifeiliaid ac iechyd dynol.

Mae hyn wedi digwydd am fod gormod o bobol - yn cynnwys y rhai ddylai wybod yn well - eisiau dewis anferth - ar hyd y flwyddyn - o fwydydd ***rhad.***

Gwyddom yr effaith mae hyn yn ei gael ar ffermwyr a chymunedau bach Cymru, heb son am y tlodi dychrynllyd sy'n effeithio ar filiynau o ffermwyr bach y Gwledydd Tlawd sy'n tyfu ein tê, coffi, bananas ac ati.

Rydym ar gyfeiliorn ac ni allwn fynd ymlaen fel hyn.

Yn ôl rhai arbenigwyr olew, bydd dim dewis cyn bo hir **ond** cynhyrchu llawer mwy o'n bwyd yn lleol - hyd yn oed yng ngwledydd 'blaengar' y Gorllewin.

Diolch, felly, am fudiadau cyffrous fel 'Trefi Trawsnewid' - a Cittaslow - sydd efo gweledigaeth o gymunedau cryf, mor hunangynhaliol â phosib - cymunedau sy'n barod i dderbyn yr her o geisio ffyrdd ymarferol newydd (ond hen!) er mwyn gwireddu'r weledigaeth obeithiol yma.

## CLEFYD Y PRYNU

Yn ei lyfr **Affluenza** (*Vermilion ISBN 0091900107*), mae Oliver James yn disgrifio ysfa pobl y Gorllewin i brynu fel haint sy'n eu gwneud yn anhapus ac isel eu hysbryd. I wella, mae'n annog creu cymunedau, treulio amser â'n ffrindiau a'n plant, caru'n gilydd, gwerthfawrogi pethau prydferth a gwerth chweil, a dysgu'r gwahaniaeth rhwng anghenion a chwantau.

# Rhaid torri'r carbon o 80% o leiaf

**Parhad o Dudalen 3.**

thanwydd rhad yn dinistrio economïau lleol.

Roedd hyn, meddai, yn chwalu cymunedau a theuluoedd gan ychwanegu'n enbyd at dlodi.

Wrth i Fesur Newid Hinsawdd gael ei baratoi gan Lywodraeth Gordon Brown i fynd gerbron Senedd y Deyrnas Gyfunol yn fuan, mae Cymorth Cristnogol yn galw ar y llywodraeth i ymrwymo ei hunain i doriadau o 80% o leiaf yn y mesur.

Mae'n galw ar y llywodraeth, hefyd, i gynnwys yn y mesur orfodaeth ar gwmnïau'r Deyrnas Gyfunol i ddatgan yn eu hadroddiad blynyddol maint eu gollyngiadau carbon byd-eang, gan gynnwys pob rhan o'r llinell gyflenwi heb guddio dim.

Dywed Cymorth Cristnogol fod un person yn y DG yn gyfrifol, ar gyfartaledd, am ollwng deg gwaith yn fwy o garbon i'r awyr na rhywun sy'n byw yn y gwledydd o dan y Sahara.

## IWRANIWM — BYTH ETO!

YNG ngorllewin yr Unol Daleithiau, mae Cenedl y Navajo yn gwrthwynebu cwmni Hydro Resources Inc sydd eisiau ail ddechrau cloddio am iwraniwm ar gyfer gorsafoedd niwclear.

Wedi eu profiad gyda chwmniau iwraniwm fu'n cloddio yn eu tiroedd yn ystod y 1950au, dywedodd y Navajo – "Byth eto!" Mae eu llywydd Joe Shirley Jr yn disgrifio profiad y genedl gyda'r diwydiant yn y cyfnod hwnnw fel *'genocide'* yn wyneb y marwolaethau a'r salwch a fu.

COFIO RHYBUDD Y DR PHIL I AELODAU'R CYNULLIAD ...

# Panig y gwyddonwyr — panig rhesymol a chyfrifol, ond panig

**DADL NEWID HINSAWDD**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**10 Mai, 2000**

**YN FY marn i, dyma'r pwnc pwysicaf y gallai'r Cynulliad Cenedlaethol neu unrhyw gorff seneddol arall ei drafod ...**

Dyma hefyd y pwnc sy'n gwthio f'ymchwil cyfredol ac rwyf wedi cael yr anrhydedd o adnabod a gweithio gyda nifer o'r gwyddonwyr allweddol yn y maes. Mae 'na reidrwydd arnaf, felly, i gyfleu i chi heddiw eu hymdeimlad o banig rhesymol, cyfrifol.

Ers 1958, mae union ddwysedd y carbon deuocsid [yn yr atmosffer] wedi cael ei fesur o Hawaii. Mae'n codi ac, er y rhybuddion, mae graddfa'r cynnydd yn cyflymu.

Ar gyfartaledd, mae tymheredd y ddaear [hefyd] yn codi. Er enghraifft, 1998 oedd y flwyddyn boethaf a gofnodwyd erioed, o gryn dipyn. Mae'r canlyniadau'r tymheredd cynyddol eisoes yn amlwg.

Ar gyfartaledd, mae lefel y môr a thymheredd y môr yn codi'n raddol. Wrth i dymheredd y môr gyrraedd pwynt naid, mae llif ynni i'r atmosffer yn codi'n ddramatig, gan arwain at gorwyntoedd.


Yn y blynyddoedd diweddar, mae America Ganol wedi diodde' corwyntoedd o ffyrnigrwydd heb eu tebyg, mae Ffrainc wedi diodde'r stormydd gwaethaf yn ei hanes cofnodedig, mae Mozambique wedi diodde llifogydd trychinebus ac, mewn mannau eraill, mae sychdiroedd ar gynnydd. Nid hap a damwain ydy'r rhain.

Dros y 25 mlynedd diwethaf, gwnaed ymdrechion mawr i greu modelau gwyddonol o'r hinsawdd fyd-eang er mwyn rhagweld yn hyderus effaith y cynnydd mewn carbon deuocsid.

Rydw i eisiau talu teyrnged i'r Cymro, John Houghton, sydd wedi arwain y gwaith hwn yn fyd-eang, fel cadeirydd pwyllgor gwyddonol y Panel Rhynglywodraethol ar Newid Hinsawdd, a'r dyn mwya' cyfrifol am gynadleddau Rio a Kyoto ...

Un canlyniad o'r unfrydedd cynyddol ymhlith gwyddonwyr fu cytundeb Kyoto i dorri gollyngiadau carbon deuocsid o 5 y cant. Mae hyn yn newyddion drwg, a newyddion da.

Yn gyntaf, y newyddion drwg.



**Yr Athro Phil Williams, gwyddonydd o fri rhyngwladol a rybuddiodd y Cynulliad Cenedlaethol am beryglon Newid Hinsawdd. LLUN: MARIAN DELYTH**

Yn ôl y modelau gwyddonol bydd cwtogiad o 5 y cant yn annigonol ac yn gwneud fawr ddim gwahaniaeth.

Y newyddion da yw bod cytundeb Kyoto wedi sefydlu fframwaith rhyngwladol i ddelio â'r broblem, ac mae optimistiaid - ac mae angen i ni gyd fod yn optimistiaid - yn credu wrth i hyd yn oed y llywodraethau mwyaf adweithiol dderbyn y dystiolaeth lethol, bydd y 5 y cant yn troi'n 50 y cant, a bydd toriad o 50 y cant yn gwneud gwahaniaeth.

Ond, a fydd yn newid mewn barn y byd yn digwydd mewn pryd? Unwaith y derbynnir yn unfrydol bod twymo daearol o ganlyniad i weithgarwch dynol yn digwydd, bydd y brif ddadl - ac yn rhannol ein dadl yng Nghymru - yn digwydd rhwng lleihau ac addasu.

Bydd [y ddadl honno] rhwng rheiny sy'n dadlau taw ein prif flaenoriaeth yw atal twymo byd eang mor fuan ag y bo modd, a rheiny sy'n anfodlon i wneud toriadau drastig mewn carbon deuocsid. [*Bydd yr olaf yn dadlau*] ... yn lle hynny y dylwn addasu i effeithiau newid hinsawdd - megis codiad lefelau'r môr, ffyrnigrwydd cynyddol y stormydd, mwy o law mewn rhai ardaloedd a sychdwr mewn rhai eraill, a mudo planhigion a rhywogaethau anifeiliaid.

Ond, mae'r rheiny sy'n pwysleisio addasu i newid hinsawdd yn lle lliniaru arno yn gwneud camsyniad angheuol trwy anwybyddu'r tebygrwydd y bydd adborth cadarnhaol yn arwain at gynnydd tu hwnt i reolaeth. Mae sawl mecanwaith adborth eisoes wedi'u nodi:

Mae iâ'r Arctig yn toddi, ac erbyn hyn mae ond yn hanner ei drwch 40 mlynedd yn ôl. Gyda'r Arctig dan iâ, mae'r rhan fwyaf o heulwen Pegwn y Gogledd yn cael ei adlewyrchu nôl i'r gofod. Ond unwaith y diflanna'r capan iâ caiff yr heulwen ei sugno i'r môr a fydd yn twymo mwy eto.

Os bydd tymheredd y lledredau uchel yn codi tu hwnt i lefel arbennig, bydd y methan sydd wedi'i ddal yn y *twndra* yn dianc. Fel nwy tŷ gwydr, mae methan yn fwy pwerus na charbon deuocsid, sef y rheswm pam y dylai taflu gwastraff organig i dir llenwi ddod yn annerbyniol.

Bydd y cam nesaf, yn ôl adroddiad Cyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol, yn digwydd wrth i'r tymheredd godi gyda newidiadau glaw yn achosi difrodi fforestydd.

Dyna pam mae gor-bwysleisio addasu yn lle lleihau mor beryglus.

Rhaid inni gymryd camau i ragweld y cynnydd mewn llifogydd a difrod stormydd sy'n mynd i ddigwydd yn anochel.

Ond rhaid i'n blaenoriaeth fod ar gyrraedd cydbwysedd hinsawdd mor fuan ag y bo modd, sy'n golygu toriadau mawr yn ein gollyngiadau carbon deuocsid.

**Dyna pam mae defnyddio llai o ynni, a defnyddio ynni adnewyddol, mor bwysig - a pham bod cymaint o frys i leihau traffig ceir a loriau ...**

***DYFYNNWYD GYDA CHANIATAD CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU***

**Roedd y gwyddonydd Dr Phil Williams yn frodor o Fargoed, Cwm Rhymni. Cafodd ei addysg yn Ysgol Pengam ac yng Ngholeg Clare, Caergrawnt, lle astudiodd ffiseg.**

**Graddiodd yno gan fynd ymlaen i wneud PhD. Bu'n gweithio yn Labordy enwog Cavendish ac fel Cymrawd o Goleg Clare, cyn dod nol i Gymru i ddarlithio yn Adran Ffiseg, Prifysgol Cymru, Aberystwyth.**

**Cafodd ei apwyntio'n athro ar Ffiseg Haul a Daear ym 1991. Roedd yn awdurdod rhyngwladol ar bynciau yn ymwneud â'r gofod a ffiseg atmosffer y Ddaear.**

**Daeth yn aelod Plaid Cymru o'r Cynulliad Cenedlaethol ym 1999. Bu farw ym 2003.**

**Dyfynnwn ran o'i rybudd ynglyn a Newid Hinsawdd a roddodd mewn dadl yn y Cynulliad yn 2000.**

## ... ERS HYNNY

**GWELWCH RYBUDD YR ATHRO TIM FLANNERY AM Y TODDI DIFRIFOL PRESENNOL AR Y PEGYNNAU IÂ**
**Tudalen 8**

YMGYRCHU'N DDIBALL DROS YR HYN SYDD DDA

# Olwen — dwylo caredig cyfnod apartheid yn croesawu plant Chernobyl

YN YSTOD mis Awst, ar strydoedd Aberystwyth, roedd grŵp o 10 o blant bywiog yn adlais o'r trasiedïau a achoswyd gan y diwydiant niwclear, a'r wraig ddillad lliwgar, wyneb llon, oedd gyda nhw yn symbol o'r caredigrwydd traws-ffiniol sy'n gallu gwneud y byd yn well le i fyw ynddo.

Plant o Belarws oedden nhw sy'n diodde' o ganlyniad i Drychineb Atomfa Chernobyl ddigwyddodd ym 1986 - yr ymbelydredd a ryddhawyd gan y tân a'r ffrwydrad yno ymhell cyn eu geni yn etifeddiaeth afiach yn eu gwaed.

A'r wraig? Olwen Davies o Benparcau oedd hi - yn 82 mlwydd oed ond yn dangos yr un asbri ac ymroddiad heintus sydd wedi'i gwneud ymysg yr ymgyrchwyr mwya' brwd a dylanwadol dros achos heddwch a dyngarwch yng Nghymru ers degawdau, yn ymgyrchydd CND, gwrth-niwclear, a gwrth-apartheid.

Wedi sefydlu elusen at y dasg ym 1995, bu Olwen yn ysbrydoliaeth ac yn brif drefnydd i groesawu grwpiau o blant o Belarws i Geredigion ers 1996 gan gredu y byddai gwyliau yn fodd i godi calonnau ieuenctid sydd wedi'u dedfrydu i gyflyrau gwahanol o salwch o ganlyniad i'r tân yn atomfa Chernobyl.

Meddai Olwen wrth **Y Papur Gwyrdd**: "Roeddwn i'n teimlo mor flin amdanyn nhw - yn diodde' salwch megis leukaemia a chanser y thiroed o ganlyniad i ffrwydrad ymhell cyn eu geni mewn diwydiant sydd mor hynod beryglus, sef y diwydiant niwclear."

Mae Olwen yn falch iawn bod grŵp o wirfoddolwyr ardderchog wedi tyfu dros y blynyddoedd i groesawu'r plant ac i drefnu eu hymweliad - tripiau i Langrannog, teithiau ar y môr, barbeciwiau ac ati.




**Olwen Davies, Aberystwyth, yn cael ei chroesawu i Mdantsane, De Affrica, ym 1996 gan deulu y bu'n eu cynnal yn ystod cyfnod apartheid.**

**Ar y dde, yn eistedd, y ddiweddar Grace Libazi; yn sefyll ar y dde, ei mab Khaya Libazi sydd bellach yn Farnwr; ac ar y chwith, un o arweinwyr y gymuned.**

**Bu Olwen hefyd yn ymweld â theulu Mogotsi yn Johannesburg lle cafodd groeso swyddogol gan Faer Soweto.**

"Mae cael grwpiau o blant draw yma yn costio tua £5-6000 y flwyddyn," meddai, "Ond mae pobl Ceredigion, a thu hwnt, wedi bod yn hael iawn eu cefnogaeth i'n helpu i dalu'r holl gostau."

Yn ogystal â'r ymweliad gan y grŵp o ieuenctid, digwyddiad arall diweddar a lonnodd calon Olwen oedd ymweliad Nelson Mandela a Llundain i weld ei gerflun yn cael ei ddadorchuddio gerllaw San Steffan.

Bu Olwen yn aelod o grŵp rhyngwladol cudd fu'n cynorthwyo teuluoedd yn Ne Affrica yn ystod cyfnod gwaethaf y frwydr yn erbyn Apartheid, a bu yn y derbyniad i groesawu Mandela ar ei ymweliad â Chaerdydd ym 1998.

"Mae Nelson Mandela yn ŵr mor fawr, yn arweinydd rhyfeddol nid yn unig i bobl De Affrica ond i'r byd i gyd. O'n i mor falch i weld cerflun i gydnabod ei waith yn cael ei chodi yn Llundain."

Bu Olwen yn Ne Affrica ym 1996 wrth iddi ymweld am y tro cyntaf â'r ddau deulu y bu'n eu cynorthwyo pan oedd rhai o'r gwŷr wedi eu carcharu ar Ynys Robben am eu rhan yn y frwydr yn erbyn Apartheid - teulu Mogotsi yn Soweto a theulu Libazi yn Mdantsane ger East London.

Yn y ddau le, cafodd ei chroesawu fel arwres, gyda phobl leol yn dawnsio a chanu ar y strydoedd i'w chyfarch a mudiad yr ANC yn trefnu iddi ymweld â mannau cysegredig yn y frwydr dros hawliau pobl dduon.

Ond un sy'n edrych i'r dyfodol yw Olwen, a bellach mae hi ar dân gyda'r trefniadau i sicrhau llwyddiant achlysur arall i godi arian i Apêl Plant Chernobyl.

Yr achlysur fydd parti mawreddog i ddathlu ei phenblwydd hi ei hun yn 83 oed - noson o hwyl gyda llu o artistiaid sy'n cael ei chynnal yn y Neuadd Fawr, Aberystwyth, gyda chymorth caredig Canolfan Gelfyddydol Aberystwyth .

Ar Hydref 3 mae ei phenblwydd, ond ar Hydref 11 y cynhelir y dathliad i godi arian.

"Dwedwch wrth bobl i gysylltu â fi am y trefniadau!" medd Olwen, gan chwerthin, "Mae o hyd rhywbeth i'w wneud. "

Ac wrth edrych nôl dros ei gweithgarwch, mae hi'n ychwanegu, "Wy i mor hapus fy mod wedi cael cyfrannu at y mudiad heddwch, at y mudiad gwrth-apartheid, ac at groesawu plant Chernobyl i Geredigion."

## Effaith damwain niwclear Chernobyl ...

**MAE tua 5,000 o blant bach wedi marw o ganlyniad i ddamwain niwclear Chernobyl, yn ol asesiad Meddygon Rhyngwladol i Atal Rhyfel Niwclear.**

**Ofnir hefyd bod mwy na 10,000 o fabanod wedi diodde' anableddau difrifol o ganlyniad i'r ymbelydredd a rhyddhawyd. Symudwyd 135,000 o bobl allan o ardal 30 km o'r adweithydd.**

**Asesiad pwyllgor gwyddonol annibynnol Plaid Werdd Senedd Ewrop yw y bydd 30,000 i 60,000 o farwolaethau yn cael eu hachosi gan y ddamwain.**

**Taflwyd 9 tunnell o ddeunydd ymbelydrol i'r awyr gan y ffrwydrad – sef 90 gwaith mwy na chan fom Hiroshima — gan gael ei chwythu i'r gogledd a'r gorllewin. Dyna achosodd yr ymbelydredd sydd ar fynydd dir Cymru, meddir, er bod rhai yn amau atomfeydd agosach.**

**Claddwyd 180 tunnell o ddeunydd ymbelydrol mewn arch o concrit a dur wedi'r tanchwa. Mae'n ddiogel, meddai'r awdurdodau. Adweithydd graffeit heb gragen amddiddyn oedd atomfa Chernobyl. Mae rhai diweddarach yn fwy diogel - honnir.**

YR IÂ YN DIFLANNU AR RUTHR O BEGWN Y GOGLEDD

# ‘Rhaid aberthu nawr — er lles y dyfodol’



Y gwyddonydd Tim Flannery (ar y dde) yn derbyn ei wobr fel Awstraliad y Flwyddyn gan Brif Weinidog Awstralia, John Howard.

**MAE’R gwyddonydd amgylcheddol blaenllaw, yr Athro Tim Flannery o Awstralia, wedi rhybuddio bod y newidiadau sydd wedi digwydd yn yr Arctig yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf mor fawr fel eu bod yn peryglu’r cyfan o system hinsawdd Hemisffer y Gogledd.**

Gan gael ei holi ar deledu ABC ar ôl cael ei ddewis yn Awstraliad y Flwyddyn, dywedodd yr Athro Flannery, “Roedd cyflymder toddi’r iâ yn 2005 wedi codi pum gwaith yn uwch na’r hyn roedd e cyn hynny, ac mae wedi bod yn fawr iawn, iawn, eto yn 2006.”

Aeth ymlaen: “Os rydych chi’n cymryd y ddwy flynedd hynny fel patrwm newydd am doddi iâ yn yr Arctig – dim ond data dwy flynedd yw hynny – fydd ’na ddim iâ i doddi yn yr Arctic mewn pump i 15 mlynedd ac mae hynny’n gyfnod syfrdanol o fyr am orchudd iâ sydd wedi bodoli ers tair miliwn o flynyddoedd.”

Dywedodd yr Athro Flannery fod rhaid cofio bod system hinsawdd Hemisffer y Gogledd wedi’i strwythuro gan y graddau tymheredd sydd rhwng y Pegwn a’r Cyhydedd, ac felly os mae tymheredd y Pegwn yn dechrau newid mae’n dechrau ad-drefnu sustem hinsawdd Hemisffer y Gogledd.

“Rwy’n poeni’n fawr nad mewn 50 neu 100 mlynedd ond mewn 10 neu 20 mlynedd y dechreuwn weld newidiadau ar raddfa fawr yn y biosffer ac fe fydd pobl yn dechrau deall, braidd yn hwyrfrydig efallai, natur yr argyfwng ...”

Yr Athro Flannery yw awdur *The Weather Makers: How Man Is Changing the Climate and What it Means for Life on Earth* (Grove Press, Efrog Newydd), llyfr sydd wedi profi’n ddylanwadol iawn wrth rybuddio arweinwyr gwleidyddol a diwydiannol ynglŷn â difrifoldeb y bygythiad amgylcheddol.

Dywedodd cyn-Brif Weinidog y Deyrnas Gyfunol Tony Blair amdano, “Bron yn unigryw, mae *The Weather Makers* yn cynnig esboniadau nid yn unig ar hanes, gwyddoniaeth, a gwleidyddiaeth newid hinsawdd, ond hefyd am yr hyn y gall pobl ei wneud nawr fydd yn gwneud gwahaniaeth.”

Roedd yr Athro Flannery yn llym iawn yn ei lyfr ar Lywodraeth Awstralia am bolisi ynni sy’n dibynnu cymaint ar gynhyrchu glo sy’n un o brif achosion $CO_2$.

Ond bellach mae arweinwyr gwleidyddol y wlad wedi dechrau gwrando ar ei rybuddion gyda’r canlyniad eu bod yn rhoi ystyriaeth i brosiectau ynni adnewyddol enfawr.

Mae’r ffaith bod Tim Flannery wedi ei enwi’n Awstraliad y Flwyddyn hefyd yn adlewyrchu ei ddylanwad newydd.

Ond dyw’r anrhydedd ddim wedi lleihau ei rybuddion ynglŷn â’r bygythiad sydd o’n blaen.

Mae’r sefyllfa’n debyg i orfod wynebu’r Ail Ryfel Byd, meddai yn ei gyfweliad teledu: “O gyfeiriad gwyddonol, gan edrych ar y data, rwy’n teimlo taw dyma 1939, gyda bygythiad enfawr ar y gorwel, a bod rhaid inni weithredu mewn modd nad yw’n normal i ni ei wneud.

“Dan amgylchiadau normal, ein lles economaidd ac ati yw’r hyn rydyn ni’n ei roi’n gyntaf. Ond pan y’ch chi’n wynebu argyfwng difrifol, nid dyna’r peth cyntaf i’w ystyried.

*“[Wrth fynd at feddyg]* ... a darganfod bod gennych haint difrifol,” meddai, “dydych chi ddim yn gofyn, ‘Faint fydd hi’n costio imi wella?’

“Rydych yn gofyn, ‘Beth yw fy siawns o wellhad, a beth alla’i wneud i sicrhau fy mod yn gwella?’”

**► “Dyna’r sefyllfa rydyn ni ynddo,” meddai’r Athro Flannery, “Rhaid inni wynebu’r pwnc yma, hyd yn oed os mae’n golygu aberth ar hyn o bryd er mwyn sicrhau gwell ddyfodol.”**



## FFRWYNO NEWID HINSAWDD:
## Rhai ffyrdd o dorri lawr ar y Carbon Deuocsid

| GWEITHRED | EFFAITH |
| --- | --- |
| **Defnyddiwch fylbiau golau ynni-isel yn eich cartref** | ***... Hyd at 10% yn llai o ollyngiadau cartref*** |
| **Prynwch offer ynni-effeithiol e.e. ffyrnau, oergelloedd** | ***... Hyd at 50% yn llai o ollyngiadau cartref o drydan*** |
| **Cerddwch, seiclwch, gwnewch ddefnydd o drafnidiaeth gyhoeddus** | ***... Cwtogi ar ollyngiadau trafnidiol — a lles iechyd*** |
| **Gwnewch eich car nesaf yn un tanwydd-effeithiol - holwch am ‘hybrid’** | ***... Arbed hyd at 70% o ollyngiadau trafnidiol*** |
| **Rhowch daenwr dŵr gradd A-driphlyg ar eich cawod** | ***... Cwymp o 12% yn eich gollyngiadau cartref*** |
| **Newidiwch i gwmni pŵer gwyrdd cofrestredig** | ***... Diddymu gollyngiadau nwyon o drydan eich cartref*** |
| **Mynnwch sustem dŵr poeth gwres haul** | ***... Lleihau hyd at 30% o ollyngiadau cartref*** |
| **Mynnwch baneli haul i greu trydan** | ***... Dod a gollyngiadau nwyon cartref o drydan i ben*** |
| **Gwnewch asesiad o’ch ôl-troed carbon personol [Gwefan WWFCymru]** | ***... Yn gallu diddymu gollyngiadau trafnidiol a chartrefol*** |
| **Awgrymwch asesiad ôl-troed carbon o’ch lle gwaith** | ***... Arbed hyd at 30% o ollyngiadau*** |
| **Cysylltwch â gwleidydd i fynegi pryder ynglŷn â newid hinsawdd** | ***... YN GALLU NEWID Y BYD*** |

[Yn seiliedig ar restr Tim Flannery yn ***The Weather Makers***]

# Llandeilo ar drywydd trawsnewid

TYFU ar garlam mae'r mudiad newydd Trefi Trawsnewid yn Llandeilo gyda chyfarfod cyhoeddus wedi arwain at sefydlu sawl grŵp fydd yn anelu at greu ffordd o fyw mwy cynaliadwy i'r dref a'i phobl.

"Mae pethau'n datblygu'n dda iawn," meddai un o'r trefnwyr, Rhiannon Rowley, "Cawson ni gyfarfod brwdfrydig ac rwy'n obeithiol iawn ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd."

Mae mudiad newydd Trefi Trawsnewid wedi'i sefydlu mewn amryw o drefi a dinasoedd ledled gwledydd Prydain ac Iwerddon yn ddiweddar wrth ymateb i'r ffaith bod cronfeydd olew y Ddaear, ac adnoddau eraill, yn prysur ddod i ben.

Bydd y grwpiau a sefydlwyd yn Llandeilo yn trafod defnyddio llai o ynni, hybu bwydydd lleol, datblygu pŵer adnewyddol, addysg amgylcheddol, ailgylchu, gerddi cymunedol a rhandiroedd, trafnidiaeth a phynciau eraill.

## ANFADWAITH Y PIBELLAU HIRION





**Lluniau Marian Delyth yn portreadu anfadwaith amgylcheddol cyfoes Cymru - sef y pibellau nwy LPG 4 troedfedd sy'n creithio deheubarth Cymru am 197milltir o Sir Benfro, Caerfyrddin, Morgannwg a Phowys at Loegr.**
**Dyma ddatblygiad ynni sy'n adlewyrchu diffyg parch at y Ddaear yn gyffredinol, ac at ddaear Cymru yn benodol.**

# 'Os na wnawn ein gorau i atal Newid Hinsawdd, bydd ein plant yn methu â maddau ein twpdra'

**Gan GORDON JAMES**
**Cyfarwyddwr**
**Cyfeillion y Ddaear Cymru**

**DOES dim sy'n bwysicach na dod â phlant i'r byd a'u magu nhw'n iawn. Mae plant yn sicrhau parhad ac addewid am ddyfodol gwell.**

Ond mae plant heddiw yn meddwl yn fwy am y dyfodol sydd o'u blaen, gan glywed bob dydd bron am y dystiolaeth ynglŷn â'r bygythiad i hinsawdd sy'n newid.

Mae'n amlwg erbyn hyn bod y newidiadau hyn ar droed. Mewn gwledydd eraill rydym yn clywed am dywydd eithafol megis y sychder a'r llifogydd sy'n digwydd yn barhaol.

Mae corwyntoedd yn taro Canol America yn fwy difrifol ac yn fwy aml.

Mae'r iâ a'r eira yn yr Arctig a'r Antarctig yn dadmer yn gynt na'r disgwyl, ac mae tir anial yn ymledu, gan droi tir amaethyddol cynhyrchiol yn ardaloedd o lwch.

Bu'n rhaid i'r gwasanaethau tân ac achub fod ar waith yn gyson yn ystod yr haf yng Nghymru i ddelio â chanlyniadau glawiad dwys. Ceir eira yn brinnach fyth yn y gaeaf a drysir y byd naturiol gan lawiad a thymheredd anarferol.

Er nad yw pobl am glywed hyn, dyma gychwyn pethau ac oni bai ein bod am newid ein ffordd o fyw yn sylfaenol bydd pethau'n mynd o ddrwg i waeth. Nid yw'n bosibl bellach inni amau'r dystiolaeth wyddonol ac mae'r dyfodol yn arddangos yn fwy dychrynllyd fyth.

Rhybuddiodd y Panel Rhyng Lywodraethol ar Newid Hinsawdd sy'n cynnwys 2,500 o brif wyddonwyr y byd yn gynharach eleni y byddai'r tymheredd cyfartalog y byd yn codi 3°C y ganrif hon os bydd pethau yn parhau fel y maent. Gallai'r codiad fod mor uchel â 6°C hyd yn oed.

Mae rhai gwyddonwyr yn credu y gallai codiad o 2°C yn uwch na lefelau cyn ddiwydiannol fynd â ni tu hwnt i bwynt didroi'n-ôl lle gallai systemau adborth positif - megis eira ac iâ yn cadw mwy o wres yr haul wrth iddo adlewyrch'n llai - arwain at effeithiau nwyon tŷ gwydr diddiwedd. Gallwn fod yn agos felly at sefyllfa ddi-droi'n-ôl.

Mae'r sefyllfa hon mor fygythiol fel bod rhai am ei hanwybyddu. Ond os byddwn yn delio â hyn yn awr, a newid yn gyflym i'r atebion lu sy'n bod yn barod i dorri lefelau allyriadau nwyon a chemegolion sy'n achosi niwed i'r hinsawdd, gallwn osgoi'r effeithiau gwaethaf.

Gallwn ni, a dylwn ni, ddefnyddio ynni yn ein hadeiladau, ein ffatrïoedd a'n systemau trafnidiaeth yn fwy effeithlon ac mae'n rhaid inni roi systemau ynni adnewyddadwy ar waith ar raddfa eang.

Os na wnawn ni hyn, ddylai hi ddim bod yn syndod os bydd pobl ifanc yn y dyfodol agos yn rhoi'r gorau i'r system wleidyddol sy'n gwrthod delio â'r bygythiad mwyaf i'n gwareiddiad erioed.

Os na weithredwn yn awr ar raddfa leol ac ar raddfa fyd eang, bydd ein plant ryw ddydd yn edrych yn ôl ac yn methu credu na maddau inni am ein twpdra.

## DONIOL — OND NID JÔC

**Digrifwr yn yr Unol Daleithiau yn dweud bod 85% o Americanwyr yn derbyn bod Cynhesu Byd Eang yn ffaith. A'r 15% arall yn gweithio i'r Tŷ Gwyn.**

# Bwrw ati i wneud YG Cymru yn gyfaill i'r blaned

MAE'R ecolegydd Keith Jones newydd ddechrau ar ei swydd fel y gŵr fydd yn gyfrifol am sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, gyda'i thiroedd helaeth a'i hadeiladau hanesyddol yng Nghymru, yn chwarae'i rhan yn yr ymgyrch i ffrwyno eithafion Newid Hinsawdd

Cafodd y gŵr o Glwt-y-bont, Llanberis, ei benodi'n Ymgynghorydd Cynaliadwyedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Nghymru - un o naw swydd gyffelyb yn rhanbarthau Lloegr ac yng Ngogledd Iwerddon.

"Mae'r swydd yn ymwneud â dŵr, ynni, newid hinsawdd a charbon," medd Keith, "Fy ngwaith i bydd gweld sut mae'r cyfan yn gysylltiedig â'i gilydd.

"Bydda i'n ceisio gweld yr effaith mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn ei gael ar yr amgylchedd dros Gymru gan edrych, ymysg pethau eraill, ar arbed ynni a chynhyrchu ynni adnewyddol."

Mae gan Keith radd mewn Rheoli a Chynllunio'r Amgylchedd o Brifysgol Bangor a chyn hyn bu'n Brif Warden ac yn Rheolwr Cefn Gwlad Gorllewin Eryri a Phenllyn.

Bydd rhaid iddo deithio cryn dipyn yn ei swydd newydd gan fod eiddo'r Ymddiriedolaeth yn ymestyn ar hyd a lled Cymru.

"Bydd yn hawdd i'r un swyddog â minnau yn East Midlands Lloegr," meddai, "Mae trenau yn mynd i bob man sy'n eiddo i'r Ymddiriedolaeth yno.

"Ond i minnau, bydd hi'n anoddach gyrraedd, er enghraifft, i Sir Benfro neu Frycheiniog, felly bydd rhaid imi newid fy ffordd o weithio gan aros mewn llefydd am nifer o ddyddiau yn lle teithio bob dydd mewn car."



**Penrhyn Gŵyr — rhan o diroedd YG Cymru**

Caiff amrywiaeth o dasgau: edrych ar sut i wella'r mawndiroedd fel 'sinc' Carbon ac fel modd i leihau llifogydd; ystyried anghenion insiwleiddio'r adeiladau hynafol; ceisio rheoli erydu arfordirol; asesu ai gwartheg — gyda'u holl nwy methan sy'n cyfrannu at newid hinsawdd — sydd orau i bori'r ucheldiroedd; trafod sut i wella systemau pŵer dŵr i gynnal anghenion yr Ymddiriedolaeth, ac felly 'mlaen.

Mae gan Keith farn gref am y dyfodol yn wyneb yr angen i ffrwyno newid hinsawdd.

"Rhaid defnyddio llai, a rhaid defnyddio'n well," meddai. "Mae Prydain yn ynys fechan, *post industrial*, gyda gormod o bobl sy'n byw y tu hwnt i'w hadnoddau.

"Bydd rhaid inni wneud arbedion call. Pam sôn am orsafoedd niwclear? Byddwn yn cael arbedion o 10% wrth i bawb newid bylbiau golau i rai ynni isel."

Gan sôn am ei swydd newydd, meddai, "Yr her fydd blaenoriaethu. Dim ond un ohonof fi fydd yng Nghymru.

"Y peth pwysicaf fydd dallt beth yw'r sefyllfa'n iawn cyn mynd ati i gynllunio ffyrdd newydd o weithredu. Does dim pwynt dechrau ar daith heb wybod ymhle 'dych chi'n cychwyn."

# Angen creu llwybrau dianc ar gyfer byd natur

WRTH esbonio'r angen i greu 'Ffyrdd Gwyrdd' er mwyn i fywyd gwyllt allu symud wrth addasu i Newid Hinsawdd, mae cadeirydd Cyngor Cefn Gwlad Cymru, John Lloyd Jones, wedi rhybuddio yn erbyn defnyddio gormod o dir ar gyfer tyfu planhigion tanwyddau bio.

Dywedodd y byddai neilltuo gormod o dir felly yn ychwanegu at y pwysau sydd ar gynefinoedd naturiol gan eu rhannu o'i gilydd .

Nôd Llywodraeth Lafur-Plaid y Cynulliad Cenedlaethol yw hybu gweithgarwch fydd yn creu Ffyrdd Gwyrdd fel bod anifeiliaid, adar a phlanhigion yn gallu delio â'r newidiadau hinsawdd sydd eisoes ar waith yng Nghymru.

Mae'r Cyngor Cefn Gwlad bellach yn ceisio mesur effaith y newid yn yr hinsawdd er mwyn darganfod sut mae gwahanol fathau o anifeiliaid, adar a phlanhigion yn debyg i symud.

"Dyw hyn ddim yn golygu newid mawr," medd Jim Latham, Ecolegydd Coedwigoedd y Cyngor Cefn Gwlad, "Yr allwedd yw cael coridorau gydag amrywiaeth o gynefinoedd fydd yn cysylltu rhwng safleoedd pwysig."


**HYSBYSEBION**

I hysbysebu yn Y Papur Gwyrdd,
Ffoniwch 01792 798162
neu Ebostiwch:
ypapurgwyrdd1@btinternet.com



**GWASG MORGANNWG**

*Argraffwyr*

**Uned 27-28, Ystad Ddiwydiannol Mynachlog Nedd,**
**Castell-nedd. SA10 7DR**
**Ff™n: 01792 815152**
**E-bost: glamorganpress@btconnect.com**

***Gwasanaeth cyflawn o bob math o argraffwaith -***
Llyfrau u Cylchgronau u Papurau Bro u Rhaglenni
Posteri u Tocynnau u Ffurflenni Busnes a Phersonol
Tocynnau Raffl u Cardiau Nadolig u Calendrau
*ac yn y blaen*



CROESO I BARTI
PENBLWYDD OLWEN

**CODI ARIAN AT GRONFA PLANT CHERNOBYL**

Nos Iau, 11 Hydref,
Y NEUADD FAWR,
ABERYSTWYTH

Artistiaid lu!
Hwyl a Sbri!



GWYBODAETH:
01970 611994

# Whitehall am gael yr hawl i greu ail Dryweryn?

**MAE Cyswllt Amgylcheddol Cymru yn rhybuddio bod Papur Gwyn ar Gynllunio a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y Deyrnas Gyfunol yn bygwth achosi Tryweryn arall yng Nghymru.**

Gwnaed y protest cryf gan nifer o asiantau amgylcheddol pwysicaf Cymru wrth nodi'r 50 mlynedd ers i bentref Capel Celyn gael ei boddi gan Ddinas Lerpwl.

Mae'r Papur Gwyn, ar y cyfan, yn effeithio ar y system cynllunio yn Lloegr, lle mae nifer o fudiadau ecolegol hefyd yn ei wrthwynebu am resymau amgylcheddol a democratiaeth.

Ond mae Geraint Hopkins, cadeirydd Cyswllt Amgylcheddol Cymru, yn rhybuddio bod y cynigion yn agor y drws i wthio cynlluniau mawr, niweidiol i'r amgylchedd, ar Gymru, a hynny heb gytundeb y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Papur Gwyn yn awgrymu rhoi penderfyniadau am brosiectau ynni mawr i gorff newydd anetholedig, sef y Comisiwn Cynllunio Strwythurol.

Byddai hyn yn cynnwys cronfeydd ynni trydan dŵr, pwerdai niwclear, safleoedd nwy LNG, rhai pibellau, ceblau trydan foltedd uchel, ffermydd gwynt mawr a morgloddiau.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gofyn i'r pwerau hyn gael eu datganoli o'r Adran Fasnach a Diwydiant i Gymru, ond mae'r Papur Gwyn yn gwrthod hynny.

**"Rydym wedi'n brawychu y gallai'r cynigion arwain at gorff anetholedig yn damsang ar ddymuniadau pobl yng Nghymru a thanseilio polisïau Cynulliad Cenedlaethol Cymru," medd Geraint Hopkins.**

Er honiadau na fyddai cronfeydd dŵr Cymru yn dod o dan y drefn newydd, y bwriad yw i'r Comisiwn Ynni ddelio a phrosiectau sy'n cynhyrchu mwy na 50 megawatt o drydan - felly, esbonia Cyswllt Amgylcheddol Cymru, fe fyddai cronfeydd sy'n creu mwy o drydan na hynny yn dod o dan reolaeth y Comisiwn.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gwthio am hawliau dros brosiectau 50 megawatt a mwy.


► *Llofnodwyd gwrthwynebiad Cyswllt gan Ymgyrch Er Amddiffyn Cefn Gwlad Cymru, Coed Cadw, Cyngor y Parciau Cenedlaethol, Cymdeithas Eryri, Cadwch Gymru'n Daclus, Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru, a'r Gymdeithas Frenhinol Er Amddiffyn Adar.*

## RALI'N GALW — TORRWN Y CARBON!












**Jeff Williams (uchod), Ysgrifennydd Cymorth Cristnogol Cymru, yn annerch torf o gefnogwyr yn ystod Rali i groesawu cerddwyr Taith Torrwn y Carbon yng Nghaerdydd.**

**Stori, tudalen 3.**

**Y PAPUR GWYRDD**

**CEFNOGWCH EICH SIOPAU LLYFRAU TRWY BRYNU'R PAPUR GWYRDD YN LLEOL ...**

**Os nad yw hynny'n gyfleus, tanysgrifiwch trwy ddanfon llythyr gyda'ch manylion at 217 Vicarage Road, Treforys, Abertawe SA6 6DX gyda siec (i 'Y Papur Gwyrdd') am £6.00 am 6 rhifyn deufisol.**

Am fwy o wybodaeth: Ffôn — 01792 798162;
Ebost — ypapurgwyrdd1@btinternet.com;
Gwefan — www.ypapurgwyrdd.com





Mynnwch
gwsg
ym mynwes
natur

# Matresi Organig gan Abaca

01269 598491
info@abacaorganic.co.uk

